# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Robert G Parry OBE FRAgS (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, R.Meirion Jones, Bryan Owen a P S Rogers |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Uwch Swyddog Adnoddau Dynol (DJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH)> |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Dim |

---

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim.

2 **COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd isod:-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin, 2019.
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf, 2019.

3 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem isod oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn ôl y diffiniad ym Mharagraff 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

4 **APWYNTIO STAFF**

**Prif Weithredwr**

Derbyniwyd 3 chais ar gyfer y swydd uchod.

**PENDERFYNWYD bod y 3 chais yn mynd ymlaen i gam nesaf y broses benodi.**

**EITEM YCHWANEGOL A YSTYRIWYD GYDA CHANIATÂD Y CADEIRYDD**

**Ailstrwythuro Uwch Reolwyr**

Dywedodd yr Uwch Swyddog Adnoddau Dynol fod cais wedi dod i law gan aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn gofyn am gael ail-ddynodi teitl ei swydd**.**

**PENDERFYNWYD ail-ddynodi teitl swydd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn Gyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**